

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

59/2022

DYDDIAD CYHOEDDI:

01/09/2022

Gorlenwi Tai ac Ethnigrwydd: Adolygiad Llenyddiaeth

Teitl: Gorlenwi Tai ac Ethnigrwydd: Adolygiad Llenyddiaeth

Awduron: Katy Addison, Rebecca Batt, a Katherine Stock

Adroddiad Ymchwil Llawn: Addison, K., Batt, B., and Stock, K. (2022). *Gorlenwi Tai ac Ethnigrwydd: Adolygiad Llenyddiaeth*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 59/2022
Ar gael yn: <https://llyw.cymru/gorlenwi-tai-ac-ethnigrwydd-adolygiad-lenyddiaeth>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Hannah Browne Gott

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn:

E-bost: ymchwildyfodolcynaliadwy@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Geirfa	2
Crynodeb	3
1. Cyflwyniad	4
2. Nodau.....	6
3. Methodoleg	7
4. Canfyddiadau: Crynodeb o'r llenyddiaeth.....	9
Cyfraddau gorlenwi yng Ngweinyddiaethau'r DU	9
Ysgogiadau gorlenwi mewn Cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig	12
Gorlenwi a deiliadaeth	12
Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a gorlenwi	16
Gorlenwi ac lechyd.....	19
Gorlenwi, ethnigrwydd a phandemig y coronafeirws (COVID-19)	22
5. Casgliadau	31
Cyfeiriadau.....	33
Annex A: Matrix of All Search Results	38
Annex B: Search Strategies	49

Geirfa

Acronym

PHE

SPI-B ac EMG

Diffiniad

Public Health England

Grŵp Gwyddonol ar Ffliw Pandemig – Ymddygiadau a'r Grŵp
Amgylcheddol a Modelu

Crynodeb

Mae'r adolygiad llenyddiaeth hwn yn amlinellu'r sail dystiolaeth ar y cysylltiadau cymhleth a rhyng-gysylltiedig rhwng pobl a grwpiau Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a gorlenwi tai. Mae'n anodd dadansoddi'r cysylltiadau achosol rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol, ethnigrwydd a gorlenwi. Er bod amrywiad eglur o ran i ba raddau y mae gorlenwi yn effeithio ar wahanol grwpiau lleiafrifoedd ethnig, mae tystiolaeth yn awgrymu bod gorlenwi tai yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn y DU, ar draws pob deiliadaeth tai, a bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o gael effaith anghymesur arnynt hefyd.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gallai fod amcangyfrif annigonol o orlenwi tai o dan rai amgylchiadau, wrth i ddigartrefedd cudd¹ guddio niferoedd gwirioneddol yr aelwydydd gorlawn. Mae diffiniadau yn allweddol ar gyfer gwaith ymchwil yn y maes hwn: ceir dau ddiffiniad deddfwriaethol o orlenwi, a gallai dewis o ddiffiniad hefyd ddylanwadu ar sut y mae gorlenwi yn cael ei gyfrif.

Mae gorlenwi tai yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd gwael penodol, ac mae hefyd yn ymddangos ei fod yn gysylltiedig yn annibynnol â pherygl cynyddol o farw o'r coronafeirws (COVID-19).

Ar y cyfan, ceir diffyg tystiolaeth o ansawdd uchel ym maes gorlenwi tai ac ethnigrwydd a phrin iawn yw'r dystiolaeth benodol i Gymru. Mae'r bwlch hwn yn arbennig o amlwg i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

¹ Mae digartrefedd cudd yn cyfeirio at sefyllfaoedd lle nad oes gan bobl gartref parhaol, ond nad ydynt wedi'u cynnwys mewn ystadegau swyddogol ac felly nid ydynt yn derbyn cymorth digartrefedd. Efallai fod unigolion sy'n ddigartref yn syrffio soffas, yn sgwatio neu'n byw mewn llety neu lochesau dros dro.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Cynhaliwyd chwiliadau llenyddiaeth gan Wasanaethau Llyfrgell Llywodraeth Cymru gyda'r bwriad o nodi pa dystiolaeth sydd ar gael o sut mae gorlenwi yn effeithio ar bobl o wahanol ethnigrwydd, ysgogiadau gorlenwi tai, a sut y gallai gorlenwi amrywio yn ôl deiliadaeth tai. Paratowyd yr adolygiad hwn o'r canlyniadau gan Dîm Ymchwil Dyfodol Cynaliadwy yng Nghangen Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r dystiolaeth a nodwyd o'r chwiliadau llenyddiaeth.
- 1.2 Ceir dau fesur statudol ar gyfer gorlenwi yng Nghymru a Lloegr, a gyflwynir yn [Neddf Tai 1985](#). Gall pa fesur a ddefnyddir ddylanwadu ar sut y caiff gorlenwi ei gyfrif. Dyma'r mesurau:
- Y safon ystafell wely, sy'n diffinio gorlenwi fel bod â nifer o breswylwyr mewn annedd fel bod yn rhaid i ddau o bobl o'r naill ryw a'r llall, sy'n ddeg oed neu'n hŷn, ac nad ydynt yn byw gyda'i gilydd fel pâr priod neu bartneriaid sifil, gysgu yn yr un ystafell wely. Fel y cyfryw, mae'r diffiniad hwn yn diystyru unrhyw breswylwyr iau na deg oed a hefyd yn diystyru unrhyw nifer o bobl o'r un rhyw sy'n rhannu ystafell wely.
 - Y safon lle, sy'n cyfrifo nifer o unigolion a ganiateir yn cysgu mewn annedd yn seiliedig ar nifer yr ystafelloedd gwely a/neu faint yr ystafelloedd gwely mewn troedfeddi sgwâr. Sylwer bod babanod iau nag un oed yn cael eu diystyru wrth ddefnyddio'r diffiniad hwn, ac mae plant rhwng un a deg oed yn cael eu cyfrif fel hanner person.
- 1.3 Gall gorlenwi ddigwydd am nifer o resymau, ond mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu ei fod yn aml yn ymwneud â thlodi,² ac mae'r ddau yn effeithio'n anghymesur ar gymunedau pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Er enghraifft, canfu dadansoddiad Ystadegau Cymru yn 2020 o ffigurau llywodraeth y DU o 2014/15 i 2018/19 fod pobl mewn aelwydydd yng Nghymru lle'r oedd pen yr aelwyd o grŵp ethnig nad oedd yn wyn yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlogi incwm cymharol na'r rhai â phen aelwyd o grŵp ethnig gwyn. Ni chynigiwyd dadansoddiad

² [The Health Foundation \(2020\) Overcrowding is highest for those with low incomes. HF, Llundain](#)

fesul grŵp ethnig. Roedd yr adroddiad hefyd yn dadansoddi data Cyfrifiad 2011³ i gynnig dadansoddiad o orlenwi, gan adrodd bod amrywiad sylweddol rhwng grwpiau ethnig ar adeg Cyfrifiad 2011 o aelwydydd yng Nghymru ond bod aelwydydd o bob grŵp lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol yn anghymesur o fod yn byw mewn tai gorlawn nag aelwydydd Gwyn Prydeinig a Gwyddelig.⁴

- 1.4 Er bod darpariaeth statudol i fynd i'r afael â gorlenwi⁵, mae'n amlwg bod gorlenwi yn dal i ddigwydd yng Nghymru a Lloegr⁶. Ceir tystiolaeth i ddangos hefyd fod cydberthynas rhwng gorlenwi a chyfraddau marwolaeth o COVID-19⁷. Felly, yng ngoleuni pandemig COVID-19 a'i effaith anghymesur ar grwpiau lleiafrifoedd ethnig, gofynnwyd am yr adolygiad llenyddiaeth hwn i nodi tystiolaeth i ddeall yn well y berthynas rhwng gorlenwi sy'n effeithio yn anghymesur ar rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig, a bod yn agored i COVID-19.

³ Roedd llawer o'r dystiolaeth a nodwyd yn y chwiliadau llenyddiaeth yn dadansoddi neu'n trafod data Cyfrifiad 2011 y DU. Nid oedd unrhyw ddadansoddiadau o ddata Cyfrifiad 2021 ar gael ar adeg y chwiliadau. Dylai data rhagarweiniol o Gyfrifiad 2021 ddechrau cael eu cyhoeddi yn 2022.

⁴ [Llywodraeth Cymru \(2020a\) Coronafeirws \(COVID-19\) a'r boblogaeth pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig \(BAME\) yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru](#)

⁵ [Deddf Tai 1985 rhan 10](#)

⁶ [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2021a\) Admin-based levels of overcrowding \(using the bedroom standard and Valuation Office Agency number of bedrooms\), feasibility research: England and Wales: January 2021. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Casnewydd](#)

⁷ Gweler er enghraifft [Barker, N. \(2020\) "The housing pandemic: four graphs showing the link between COVID-19 deaths and the housing crisis." Inside Housing, 29.5.2020](#)

2. Nodau

2.1 Nodau'r adolygiad llenyddiaeth hwn oedd ymchwilio i ba dystiolaeth sydd ar gael o:

- sut mae gorlenwi yn effeithio ar grwpiau lleiafrifoedd ethnig, yn bennaf yng Nghrymu, ac mewn mannau eraill; ac
- effeithiau gorlenwi ac ethnigrwydd ar ganlyniadau COVID-19.

3. Methodoleg

- 3.1 Paratowyd yr adroddiad hwn gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gyfres o chwiliadau llenyddiaeth a gynhaliwyd gan Wasanaethau Llyfrgell Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd y chwiliadau ar-lein rhwng 12/08/2021 a 03/09/2021, gan ddefnyddio nifer o gronfeydd data academaidd a gwefannau perthnasol a ddedolwyd. Defnyddiwyd allweddeiriau â phwyslais ar orlenwi, ethnigrwydd, tai a Covid-19 a chyflwynir tabl manwl o'r strategaethau chwilio gan gynnwys y ffynonellau a'r allweddeiriau a ddefnyddiwyd yn Atodiad B. Dewiswyd y strategaeth a fabwysiadwyd, adolygiad llenyddiaeth yn hytrach nag adolygiad systematig, fel un briodol i gwestiwn amhenodol y bwriadwyd iddo nodi cyd-destun, syniadau cyfredol ac archwilio ansawdd y dystiolaeth ar y pwnc.⁸
- 3.2 Roedd y canlyniadau wedi'u cyfyngu i adroddiadau / papurau ymchwil, papurau ymchwil llywodraethol ac erthyglau cyfnodolion. Er y ffafriwyd dogfennau a gyhoeddwyd yn y pum mlynedd diwethaf, cafodd dogfennau a gyhoeddwyd hyd at ddeng mlynedd yn ôl eu cynnwys yn y canlyniadau os ystyriwyd eu bod yn hynod berthnasol. Dylid ystyried yr wybodaeth a gyflwynir yn y ddogfen hon yng nghyd-destun y meini prawf chwilio a ddefnyddiwyd.
- 3.3 Nodwyd wyth deg chwech o ddogfennau gan y chwiliadau llenyddiaeth. Er na ddefnyddiwyd system bwysoli ffurfiol ar gyfer y dystiolaeth a nodwyd yn yr adolygiad hwn, yn y drafodaeth o dystiolaeth isod, rhoddwyd mwy o bwys yn gyffredinol ar ddogfennau â phwyslais ar Gymru neu'r DU a lle mai'r prif bwyslais yw tai gorlawn ac ethnigrwydd. Roedd llawer o'r dystiolaeth yn waith ymchwil eilaidd yn hytrach na chynradd ac roedd adolygiadau dystiolaeth yn dueddol o fod yn ddisgrifiadol yn hytrach na systematig. Oherwydd hyn, mae'r adolygiad wedi'i gyfyngu o ran ei allu i ynysu achosiaethau gorlenwi yng nghyd-destun ethnigrwydd.
- 3.4 Gan fod yr adolygiad hwn yn thematig ei natur, ni thrafodir yr holl ddogfennau a nodwyd yn y chwiliadau. Yn benodol, efallai fod dogfennau â briff eang iawn, neu sydd â phwyslais ar ardaloedd daearyddol yn hytrach na'r DU yn cael eu trafod yn

⁸ [Robinson, P. a Lowe, J. \(2015\) 'Literature reviews vs systematic reviews'. *Australian and New Zealand Journal of Public Health* 39\(2\), t.103.](#)

gryno neu ddim o gwbl. Fodd bynnag, gellir gweld yr holl ddogfennau a nodwyd yn y chwiliadau yn y tabl canlyniadau yn Atodiad A.

4. Canfyddiadau: Crynodeb o'r llenyddiaeth

- 4.1 O'r 86 o ddogfennau a nodwyd yn y chwiliadau llenyddiaeth, mae'r mwyafrif (54) yn archwilio gorlenwi yng nghyd-destun pandemig COVID-19. Nodwyd tri deg dau o ddogfennau lle archwiliwyd tystiolaeth yn ymwneud â gorlenwi yng Nghymru neu'r DU heb gyfeiriad at COVID-19. Roedd y dogfennau hyn i gyd yn ffynonellau eilaidd, yn cynnwys papurau briffio ac adroddiadau llywodraethol. Trafodir y themâu a godwyd yn y 32 o ddogfennau hyn isod o baragraff 4.2. Mae'r adran o'r enw *Gorlenwi, ethnigrwydd a phandemig y coronafeirws (COVID-19)*, o baragraff 4.30, yn trafod detholiad o'r 54 o ddogfennau sy'n benodol i orlenwi a COVID-19.

Cyfraddau gorlenwi yng Ngweinyddiaethau'r DU

- 4.2 Lluniodd Bob Smith a Peter Mackie, gan ysgrifennu i'r UK Collaborative Centre for Housing Evidence ddogfen friffio, *Housing in Wales: evidence for Welsh Government 2021-26*, a oedd yn cyflwyno blaenoriaethau tai yn seiliedig ar dystiolaeth i Gymru ar gyfer gweinyddiaeth newydd y Senedd ar y pryd yn 2021. Mae'r ddogfen yn eang iawn, gan nodi ac archwilio chwe gwahanol her dai fawr i Gymru⁹. Ni thrafodir gorlenwi ac ethnigrwydd yn benodol, ond mae'r papur yn nodi y gallai aelwydydd lleiafrifoedd ethnig ddioddef mwy o allgáu o dai fforddiadwy, diogel ac addas. Mae Smith a Mackie (2021) yn nodi y gall problemau systemig yn y system dai waethygu allgáu o dai o'r fath; er enghraifft gall y diffyg tai cymdeithasol gynyddu costau yn y sector rhentu preifat. Gellir dod i'r casgliad bod y math hwn o broblem systemig yn debygol o effeithio'n fwy ar grwpiau sy'n dioddef lefelau uwch o dlodi. Caiff y berthynas rhwng iechyd a thai ei harchwilio trwy ddyfynnu gwaith ymchwil a ganfu fod cost cartrefi nad ydynt yn weddus yn Lloegr i'r GIG yn amcangyfrif o £1.4 biliwn y flwyddyn, gan dynnu sylw at y cyd-destun economaidd y mae gorlenwi ynddo. Dylid nodi bod systemau tai yng Nghymru yn cael eu rhedeg ar wahân i systemau tai Lloegr, a bod GIG Cymru yn sefydliad ar wahân i GIG Lloegr, felly mae'r costau yn debygol o amrywio rhwng y ddwy wlad. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau hyn yn dal yn debygol o fod yn hynod berthnasol i Gymru.
- 4.3 Mae erthygl ymchwil gan Hannah Johnson i Ymchwil y Senedd, *'Mae angen newidiadau systemig ar raddfa eang' i fynd i'r afael â hiliaeth ac anghydraddoldeb*

⁹ Y chwe her fawr a nodir yw: cyflenwad tai fforddiadwy; digartrefedd; y sector rhentu preifat, ymgysylltu â thenantiaid, creu lleoedd cynaliadwy, ac iechyd a thai.

hiliol yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn 2021, yn ystyried anghydraddoldeb hiliol yng nghyswllt COVID-19, ond yn nodi bod gwraidd effeithiau anghyfartal y pandemig “yn aml iawn...yn yr anghydraddoldebau hirdymor a hirsefydlog”. Er nad yw’n canolbwyntio’n benodol ar dai na gorlenwi, mae’r erthygl yn nodi bod “Sipsiwn [a] Teithwyr Gwyddelig, pobl o gefndiroedd Bangladeshaidd, Du ac Arabaidd yn llawer mwy tebygol o fyw mewn tai gorlawn” (Ymchwil y Senedd, 2021). Caiff hyn ei adleisio yn *Gwella Anghydraddoldeb Hiliol ym maes Tai a Llety*, adroddiad gan Jack Price, a gyhoeddwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2021), sy’n defnyddio dadansoddiad o ddata o Gyfrifiad 2011. Mae *Ethnicity Facts and figures: Overcrowded Households* gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2020), sy’n dadansoddi data o Arolwg Tai Lloegr rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2019 i ddarparu ffigurau ar orlenwi yn Lloegr yn unig, yn cynnwys canfyddiadau tebyg. Canfu Price fod cyfraddau gorlenwi yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr i bob ethnigrwydd. Ceir anghysondebau tebyg rhwng grwpiau ethnig yng Nghymru a Lloegr, gyda 4.9% o bobl Gwyn Prydeinig yn byw ar aelwydydd gorlawn yng Nghymru, o’i gymharu â 28.7% o Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig, 27% o bobl Bangladeshaidd ac 19.4% o bobl Dduon (Price, 2021).

- 4.4 Nid oedd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2020) yn gallu darparu ffigurau ar gyfer aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn Lloegr oherwydd diffyg data ar gyfer y cymunedau hyn, ond canfu yn gyffredinol fod tua 3% o aelwydydd yn Lloegr yn orlawn (o’i gymharu â 5.5% ar gyfer Cymru yn 2015¹⁰). Roedd aelwydydd lleiafrifoedd ethnig¹¹ yn fwy tebygol o fod yn orlawn nag aelwydydd Gwyn Prydeinig yn y rhan fwyaf o ranbarthau Lloegr, pob grŵp economaidd-gymdeithasol, pob grŵp oed a phob deiliadaeth tai. Bangladeshaidd (24%), Pacistanaidd (18%), Du Affricanaidd (16%), Arabaidd (15%) a Gwyn a Du Affricanaidd Cymysg (14%) oedd ethnigrwydd yr aelwydydd â’r cyfraddau uchaf o orlenwi yn Lloegr. Mae papur briffio ymchwil Tŷ’r Cyffredin *Overcrowded housing (England)* gan Barton a Wilson (2021) yn nodi bod tua 3.5% o aelwydydd yn Lloegr yn orlawn yn ôl data 2019/20 o Arolwg Tai Lloegr. Maent yn adleisio Smith a Mackie

¹⁰ [Llywodraeth Cymru \(2014\) Data Dangosyddion yn ôl Awdurdod Lleol – Cartrefi Gorlawn. Llywodraeth Cymru](#)

¹¹ Mae’r categorïau ethnigrwydd o Arolwg Tai Lloegr ryw fymryn yn wahanol i’r rhai a ddefnyddiwyd yng nghyfrifiad 2011 ac maent wedi’u rhannu yn: **Asiadd:** Bangladeshaidd; Tsieineaidd; Indiaidd; Pacistanaidd; Asiaidd arall; **Du:** Du Affricanaidd; Du Caribïaidd; Du Arall; **Cymysg:** Gwyn/Asiadd Cymysg; Gwyn/Du Affricanaidd Cymysg; Gwyn/Du Caribïaidd Cymysg; Cymysg arall; **Gwyn:** Gwyn Prydeinig; Gwyn Gwyddelig; Gwyn Sipsi/Teithir; Gwyn arall; **Arall:** Arabaidd; Unrhyw arall. Roedd gan bob ethnigrwydd ganrannau uwch o dai gorlawn na Gwyn Prydeinig, ac eithrio Gwyn Sipsi/Teithiwr, y cadwyd data ar eu cyfer yn ôl oherwydd maint sampl bach.

(2021) o ran nodi effaith gorlenwi ar iechyd corfforol a meddyliol a hefyd yn nodi'r tebygolrwydd cynyddol y bydd cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn Lloegr yn byw mewn tai gorlawn.

- 4.5 Canfu adroddiad gan Lywodraeth yr Alban, *Housing needs of minority ethnic groups: Evidence review (2021)*, ddarlun tebyg yn yr Alban. Defnyddiodd y dadansoddiad hwn ddata o Gyfrifiad 2011 yr Alban, a chanfu mai yn yr Alban 'Gwyn Pwylaidd' oedd yr ethnigrwydd â'r gyfradd uchaf o orlenwi, sef 30% o aelwydydd, ac yna aelwydydd 'Bangladeshaidd' ac 'Affricanaidd' yr oedd gan y ddau ohonynt gyfraddau gorlenwi o 28% o aelwydydd. Mae hyn yn cymharu â'r ffaith bod 9% o holl aelwydydd yr Alban yn orlawn ac 8% o aelwydydd Gwyn Albanaidd.
- 4.6 Yn yr un modd, canfu dadansoddiad o Gyfrifiad 2011 yng Ngogledd Iwerddon¹² gyfraddau uwch o orlenwi ar aelwydydd lleiafrifoedd ethnig nag aelwydydd Gwyn. Yn wahanol i Gyfrifiad 2011 Cymru a Lloegr, a ddefnyddiodd 18 categori¹³, defnyddiodd y Cyfrifiad hwn bum categori ar gyfer ethnigrwydd: Asiaidd, Du, Arall, Cymysg a Gwyn. Mae'r categorïau hyn yn debygol o gynnwys amrywiaeth o grwpiau ynddynt, a dylid cadw hyn mewn cof wrth ystyried y dadansoddiad canlynol. Canfu'r data fod 10% o'r boblogaeth yn byw ar aelwydydd gorlawn, â chyfraddau gorlenwi o 30% ymysg aelwydydd 'Du', 24% ymysg aelwydydd 'Asiaidd', a 19% o aelwydydd 'Arall' ac 13% o aelwydydd 'Cymysg' yn orlawn o'u cymharu â 9.3% ar gyfer aelwydydd 'Gwyn'. Cafnu'r dadansoddiad hefyd fod y cyfraddau gorlenwi uchaf yn y sector rhentu cymdeithasol ac isaf ar aelwydydd a oedd yn eiddo i berchen-feddianwyr ar draws yr holl brif grwpiau ethnig. Trafodir deiliadaeth a gorlenwi o baragraff 4.10 isod.
- 4.7 Ceir darlun eglur ar draws y pedair gwlad yn y DU fod cyfraddau gorlenwi tai yn uwch mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig nag mewn cymunedau Gwyn Prydeinig

¹² [Northern Ireland Statistics & Research Agency \(NISRA\) \(2013\). *Census 2011: Detailed Characteristics for Northern Ireland on Ethnicity, Country of Birth and Language*. NISRA, Belfast/Béal Feirste](#)

¹³ Y categorïau ethnigrwydd yng Nghyfrifiad 2011 Cymru a Lloegr oedd: **Gwyn:** Prydeinig; Gwyddelig; Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig; Gwyn Arall; **Grŵp ethnig Cymysg/Lluosog:** Gwyn a Du Caribiaidd; Gwyn a Du Affricanaidd, Gwyn ac Asiaidd; Cymysg Arall; **Asiaidd/Asiaidd Prydeinig:** Indiaidd; Pacistanaidd; Bangladeshaidd; Tsieineaidd; Asiaidd Arall; **Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig:** Affricanaidd; Caribiaidd; Du Arall; **Grŵp Ethnig Arall:** Arabaidd; Unrhyw grŵp ethnig arall.

Ysgogiadau gorlenwi mewn Cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

- 4.8 Mae materion fel tlodi, maint teuluoedd ac anghydraddoldebau lleiafrifoedd ethnig yn rhyngweithio ag opsiynau tai, gan gynnwys lleoliad, deiliadaeth a maint eiddo. Fel y trafodwyd uchod, mae aelwydydd lleiafrifoedd ethnig yn dueddol o fyw mewn amodau mwy gorlawn, ac, yng Nghyfrifiad 2011, canfuwyd bod gorlenwi fwyaf difrifol ymysg aelwydydd Pacistanaidd, Bangladeshaidd a Du Affricanaidd yn y DU. Canfuwyd hefyd mai'r ti grŵp hyn oedd â'r niferoedd uchaf o blant ar gyfartaledd (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2020)). Gallai gorlenwi hefyd fod yn gysylltiedig â threfniadau byw aml-genhedlaeth, y diffyg eiddo mawr yn y sector cymdeithasol, clystyru mewn ardaloedd daearyddol lle mae gorlenwi yn arbennig o ddifrifol ac incwm isel.¹⁴
- 4.9 Yn *Housing Briefing Paper* i'r Race Equality Foundation gan Nigel de Noronha (2021), caiff y polisïau a'r grymoedd marchnad sydd wedi llunio anfanteision tai a wynebwr gan ymfudwyr a phobl o leiafrifoedd ethnig yn y DU eu harchwilio. Mae'r papur briffio yn dadlau bod gwahaniaethu hiliol wedi bod yn bresennol yn y farchnad dai ers dros ganrif, gan gyfyngu'r dewisiadau i'r rhai a fewnfudodd i'r DU. Fe wnaeth pwyslais polisi ar glirio slymiau ar ôl yr Ail Ryfel Byd allgáu cymunedau ymfudwyr ar ôl y rhyfel o dai cymdeithasol trwy flaenoriaethu tai newydd i boblogaethau slymiau a ddadleolwyd, gan arwain at orfodi llawer o grwpiau ymfudwyr i dai gorlawn yn y sector rhentu preifat. Ers hynny, mae amrywiaeth gynyddol eang o grwpiau ethnig wedi ymfudo i'r DU ac ategwyd hyn gan sgysiau ac agweddau cynyddol elyniaethus ynghylch mewnfudo sydd wedi arwain at ddeddfwriaeth genedlaethol (y DU) ac arferion awdurdod lleol sydd wedi cyfyngu hawliau tai a lles ymfudwyr yn eglur ac yn systematig (de Noronha, 2021).

Gorlenwi a deiliadaeth

- 4.10 Mae aelwydydd o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn y DU yn fwy tebygol o fod yn orlawn ym mhob grŵp deiliadaeth (Barton a Wilson, 2021). Hefyd, mae cyfraddau gorlenwi yn uwch mewn llety rhent na llety sy'n eiddo i berchen-feddianwyr ar draws holl weinyddiaethau'r DU¹⁵. Hefyd, mae aelwydydd lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol

¹⁴ [Barnes, M., Cullinane, C., Scott, S. a Silvester, H. \(2013\) *People living in bad housing – numbers and health impacts*. Shelter, Llundain](#)

¹⁵ [Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol \(2021\) *English Housing Survey: Private Rented Sector, 2019-20*. Llywodraeth y DU, Llundain.](#)

o fod mewn deiliadaethau rhentu preifat a rhentu cymdeithasol¹⁶ nag aelwydydd Gwyn Prydeinig, ac yn llai tebygol o fod mewn deiliadaethau sy'n eiddo i berchennfeddianwyr nag aelwydydd Gwyn Prydeinig (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2020). Canfu erthygl ystadegol Llywodraeth Cymru, *Coronafeirws (COVID-19) a'r boblogaeth pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yng Nghymru* (2020) fod hanner yr aelwydydd lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru yn byw mewn eiddo rhent o'u cymharu ag ychydig yn llai na thraean o aelwydydd Gwyn, ac roedd yr aelwydydd lleiafrifoedd ethnig sy'n rhentu yn fwy tebygol o fyw yn y sector rhentu preifat nag mewn eiddo rhentu cymdeithasol (Llywodraeth Cymru, 2020a).

- 4.11 Nodwyd tair ffynhonnell a oedd yn archwilio agweddau ar ddeiliadaeth yn benodol. Nid oedd yr un ohonynt yn ymchwil cynradd ac nid oedd gan yr un ohonynt bwylais penodol ar Gymru. Mae dau yn bapurau briffio, gan Shelter: *The social housing overcrowding crisis* (2021) a gan y Race Equality Foundation: *Understanding ethnic inequalities in housing: Analysis of the 2011 census* (2013) gan Nissa Finney a Bethan Harries, ac adroddiad gan y Ganolfan Polisiâu Tai, *Vulnerability amongst Low-Income Households in the Private Rented Sector in England* (2018) gan David Rhodes a Julie Rugg yw'r llall.
- 4.12 Mae *Understanding ethnic inequalities in housing: Analysis of the 2011 census* (Finney a Harries, 2013) yn archwilio tueddiadau o ran deiliadaethau gan ddefnyddio data o gyfrifiadau 1991, 2001 a 2011. Mae'n dadlau bod polisiâu tai fel 'hawl i brynu' a 'rhanberchnogaeth' wedi helpu i gadarnhau ffafriaeth yng Nghymru a Lloegr i berchentyaeth yn hytrach na rhentu, ond yn nodi er gwaethaf y ffafriaeth hon fod cyfraddau perchentyaeth wedi gostwng rhwng 1991 a 2011, mae'n debyg oherwydd prisiau tai sy'n codi a diffyg cyflenwad o eiddo addas mewn rhai ardaloedd¹⁷. Er bod perchentyaeth wedi gostwng i bob grŵp ethnig, roedd y gostyngiad fwyaf yn gymesur i aelwydydd Tsieineaidd (-17.4%) a Phacistanaid (-18%) ac yn lleiaf yn gymesur i aelwydydd Gwyn (-3%) a Bangladeshaid (-3%).
- 4.13 Mae lefelau rhentu cymdeithasol hefyd yn dirywio, ac efallai y gellid esbonio hyn gan ostyngiad hirdymor i stoc rhentu cymdeithasol; yn 2004, tai cymdeithasol oedd 18.5%

¹⁶ Diffinnir tai rhentu cymdeithasol fel tai sy'n cael eu rhentu gan awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a darparwyr tai cymdeithasol eraill (Finney a Harries, 2013)

¹⁷ Gweler [Bwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru \(2020\) Dwelling Stock Estimates for Wales. Llywodraeth Cymru, Caerdydd](#), ar gyfer amcangyfrifon stoc diweddaraf Cymru ar adeg ei ysgrifennu.

o gyfanswm y stoc yng Nghymru a Lloegr o'i gymharu â 31% ym 1979 (Finney a Harries, 2013). Ceir gwahaniaethau cyson rhwng grwpiau ethnig o ran lefelau tai cymdeithasol: gostyngodd nifer y tai cymdeithasol i bob grŵp ethnig rhwng 1991 a 2011, ond grwpiau Du Affricanaidd, Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig a Du Caribïaidd oedd â'r cyfraddau uchaf o aelwydydd mewn llety rhentu cymdeithasol gyda dros 40% o'u poblogaethau mewn tai rhentu cymdeithasol yn 2011, ac aelwydydd Indiaidd a Tsieineaidd oedd â'r cyfraddau isaf (7% ac 11%, yn eu trefn). Er y gallai'r niferoedd isel sy'n manteisio ar dai cymdeithasol ymysg grwpiau penodol adlewyrchu cyfoeth cymharol, mae Finney a Harries yn awgrymu y gallai'r niferoedd isel hyn adlewyrchu anawsterau i grwpiau penodol yn cael gafael ar dai cymdeithasol, yn hytrach na galw (Finney a Harries, 2013).

4.14 Mae papur briffio Shelter, *The social housing overcrowding crisis* (2021) yn nodi bod mwy o gartrefi cymdeithasol yn Lloegr yn cael eu colli i werthiannau a dymchweliadau bob blwyddyn nag sy'n cael eu hadeiladu yn eu lle. Mae Shelter (2021) yn nodi bod y diffyg cyflenwad o lety rhentu cymdeithasol addas yn gwaethygu gorlenwi, gan ddadlau bod y diffyg eiddo sy'n ddigon mawr ar gyfer aelwydydd sy'n byw mewn llety rhentu cymdeithasol gorlawn ar hyn o bryd yn adlewyrchiad o'r diffyg cartrefi cymdeithasol yn gyffredinol. Maent yn nodi bod 1.5 miliwn o bobl yn Lloegr yn byw mewn cartrefi cymdeithasol gorlawn a bod hyn yn gynydd o 44% yn y pum mlynedd diwethaf, ac yn galw am gynydd sylweddol i fuddsoddiad mewn adeiladu tai cymdeithasol yn Lloegr (Shelter, 2021). Gan roi sylw i broblem debyg yng Nghymru, mae Gweinidog Newid Hinsawdd presennol Cymru wedi ymrwmo i adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol newydd yng Nghymru yn ystod tymor presennol Llywodraeth Cymru.¹⁸

4.15 Cynyddodd aelwydydd yn sector rhentu preifat y DU gyfan ar draws pob ethnigrwydd rhwng 1991 a 2011. Er mai'r grwpiau ethnig Tsieineaidd ac Affricanaidd oedd y grwpiau mwyaf a gynrychiolwyd yn sector rhentu preifat y DU, roedd y cynnydd mwyaf ymysg aelwydydd Indiaidd, Pacistanaidd a Du Caribïaidd (Finney a Harries, 2013). Mae erthygl Finney a Harries bron i ddeng mlwydd oed bellach, ond mae ffigurau mwy diweddar llywodraeth y DU yn dangos bod y rhan fwyaf o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn Lloegr yn fwy tebygol na grwpiau Gwyn Prydeinig o rentu eu

¹⁸ [Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd \(2021\) Datganiad Ysgrifenedig: Tai Cymdeithasol yng Nghymru. Llywodraeth Cymru, Caerdydd](#)

cartrefi yn breifat, ac mai'r grwpiau ethnig sy'n cael eu cynrychioli fwyaf yn y sector rhentu preifat o hyd yw Tsieineaidd, Du Affricanaidd, Du arall a Gwyn/Du Caribiaidd Cymysg (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2020b)). Yn *Vulnerability amongst Low-Income Households in the Private Rented Sector in England* (2018), mae Rhodes a Rugg yn dadansoddi Arolwg Tai Lloegr o 2012/13 i archwilio priodoleddau grwpiau sy'n agored i niwed yn y sector rhentu preifat; er nad ydynt yn canolbwyntio ar ethnigrwydd, maent yn nodi er mai'r sector rhentu cymdeithasol yw'r sector 'incwm isel' mwyaf, mae 38% o aelwydydd sector rhentu preifat yn y traean isaf o incymau yn Lloegr; roedd ansicrwydd ariannol yn fwy amlwg ymysg categorïau agored i niwed gan gynnwys aelwydydd lle'r oedd person cyswllt yr aelwyd yn ymfudwr diweddar (Rhodes a Rugg, 2018). Canfu dadansoddiad mwy diweddar gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ystyried data o 2018 fod gan 36% o aelwydydd sector rhentu preifat Cymru a 22% o aelwydydd sector rhentu preifat Lloegr incwm o lai na £15,000 y flwyddyn.¹⁹

- 4.16 Mae'r adroddiad yn nodi chwe chategori o fath o aelwyd a ddynodir fel rhai sy'n 'agored i niwed'. Mae'r categorïau yn anghyfyngol ac fel a ganlyn: mae person cyswllt yr aelwyd neu ei bartner yn anabl neu'n dioddef salwch hirdymor; aelwydydd ag un neu fwy o blant dibynnol; aelwydydd lle mae person cyswllt yr aelwyd yn derbyn budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd neu gredydau treth; aelwydydd lle mae person cyswllt yr aelwyd yn 65 oed neu'n hŷn; aelwydydd lle ganwyd person cyswllt yr aelwyd dramor ac wedi dod i fyw yn y DU ers y flwyddyn 2000; ac aelwydydd lle mae person cyswllt yr aelwyd ar incwm isel ond nad yw'n derbyn budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd neu gredydau treth (Rhodes a Rugg, 2018).
- 4.17 Canfuwyd bod gorlenwi yn un o'r tair problem²⁰ a oedd yn gysylltiedig â bod yn y 38% o aelwydydd sector rhentu preifat yn y traean isaf o incymau yn Lloegr. Canfuwyd bod tua 10% o aelwydydd sector rhentu preifat 'agored i niwed' (fel y'i diffinnir ym mharagraff 4.15 uchod) yn orlawn, o'i gymharu ag 11% o aelwydydd agored i niwed yn y sector rhentu cymdeithasol a 4% o aelwydydd agored i niwed sy'n eiddo i berchen-feddianwyr. O'r tair problem, mae'r adroddiad yn nodi mai gorlenwi a wynebwyd leiaf gan yr aelwydydd sector rhentu preifat yn y categorïau agored i niwed; mae'r adroddiad yn awgrymu y gallai hyn fod oherwydd y ffaith bod

¹⁹ [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2019\) UK private rented sector: 2018. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Casnewydd.](#)

²⁰ Y ddau arall yw: tlodi ar ôl costau tai, a'r eiddo ddim yn bodloni'r Safon Tai Gweddus.

tenantiaid sy'n cael incwm llai yn gallu gwneud y ddadl dros dai cymdeithasol yn well lle mae gorlenwi difrifol yn digwydd (Rhodes a Rugg, 2018).

4.18 Er nad yw anghyfartalwch ymysg grwpiau ethnig yn cael ei archwilio yn adroddiad Rhodes a Rugg, gyda'r gyfran uchel o grwpiau lleiafrifoedd ethnig penodol mewn tai cymdeithasol a'r sector rhentu preifat a nodwyd yn *Understanding ethnic inequalities in housing: Analysis of the 2011 census* (Finney a Harries, 2013) a'r cyfraddau uwch o amddifadedd yn gymesur a nodwyd mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig (Ystadegau Cymru, 2020), gellir dod i'r casgliad bod niweidiau a risgiau'r sector rhentu preifat a nodwyd yn yr adroddiad hwn yn effeithio'n anghymesur ar aelwydydd lleiafrifoedd ethnig. Fel y mae Finney a Harries yn dadlau, mae anghydraddoldebau ethnig o ran gorlenwi a deiliadaeth yn bodoli ac yn parhau yng Nghymru a Lloegr, gan nodi bod y parhad hwn yn awgrymu bod hwn yn faes a esgeuluswyd yn hanesyddol gan bolisi llywodraethol (2013), sy'n awgrymu bod problemau systemig ar waith o ran anghydraddoldebau tai.

Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a gorlenwi

4.19 Yn *Ethnic disadvantage in the housing market: Evidence from the 2011 census* (2015), papur briffio gan Nigel de Noronha i'r Race Equality Foundation, mae de Noronha yn adrodd bod cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr saith a hanner gwaith yn fwy tebygol o ddiodef amddifadedd tai nag aelwydydd Gwyn Prydeinig, ac mai gorlenwi oedd y prif reswm am hyn. Dywedodd tua un rhan o dair o'r ymatebwyr i'r cyfrifiad yng Nghymru a oedd yn Sipsiwn, Roma a Theithwyr eu bod yn byw mewn aelwydydd gorlawn, ond canfu'r adroddiad fod diffyg difrifol o ran tystiolaeth o gymunedau Teithwyr a thai a bod hyn yn debygol o guddio anghydraddoldebau mwy amlwg byth.

4.20 Nid yw *Overcrowded Housing (England)* yn dyfynnu canran ar gyfer aelwydydd Sipsiwn, Roma a Theithwyr gorlawn, gan ddweud bod y data wedi eu cadw yn ôl gan fod maint sampl bach yn eu gwneud yn annibynadwy (Barton a Wilson, 2020). Mae de Noronha (2015) yn nodi mai cyfrifiad 2011 oedd y cyntaf i gydnabod bod Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig Gwyn yn gategori ar wahân; ni chafodd y categori Roma ei gynnwys tan Gyfrifiad 2021, nad oes data ar ei gyfer ar gael eto. Canfu fod 20,000 o aelwydydd Sipsiwn, Roma a Theithwyr wedi'u cyfansoddi o 58,000 o unigolion. Fodd bynnag, yn *Tackling inequalities faced by Gypsy, Roma and Traveller communities*,

mae Pwyllgor Menywod a Chydraddoldebau Tŷ'r Cyffredin yn adrodd nad yw ffigurau poblogaeth y Cyfrifiad yn adlewyrchu maint y boblogaeth yn gywir, gan eu bod yn llawer is na'r amcangyfrifon a dderbynnir yn eang sy'n awgrymu bod rhwng 100,000 a 300,000 o Sipsiwn a Theithwyr a hyd at 200,000 o bobl Roma yn byw ym Mhrydain (Pwyllgor Menywod a Chydraddoldebau Tŷ'r Cyffredin, 2019). Ystyrir y gallai lefelau isel o gwblhau'r cyfrifiad a diffyg ymgysylltiad cyffredinol â gwaith ymchwil ac ymarferion casglu data eraill fod o ganlyniad i ymyleiddio a gwahaniaethu a wynebir gan y grwpiau hyn yn arwain at ddiffyg ymddiriedaeth mewn prosesau swyddogol (de Noronha, 2015, Pwyllgor Menywod a Chydraddoldebau Tŷ'r Cyffredin, 2019). Cefnogir hyn gan yr *Inclusive Data Taskforce Recommendations Report* (y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021c) sy'n nodi bod grwpiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn aml yn cael eu hystyried yn anoddach eu cyrraedd, a bod diffyg ymddiriedaeth, yn enwedig yn y llywodraeth [y DU] yn ogystal ag ystadegau llywodraethol, yn cael ei ystyried yn gyffredin fel problem sy'n effeithio ar gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod arolygon tai yn dueddol o ddefnyddio aelwydydd fel y ffrâm samplu safonol, ac y gall cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr gynnwys poblogaethau nad ydynt ar aelwyd, a gallent hefyd gael eu hallgáu gan ddulliau casglu data ar-lein yn unig a diffyg cydnabyddiaeth mewn offerynnau casglu data o wahaniaethau o ran iaith neu lythrennedd (y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021c).

- 4.21 Bydd tair dogfen yn cael eu trafod yma a archwiliodd yn benodol faterion yn ymwneud â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan gynnwys materion tai. Yr adroddiad gan Gomisiwn Menywod a Chydraddoldebau Tŷ'r Cyffredin, *Tackling inequalities faced by Gypsy, Roma and Traveller communities* (2019), adolygiad tystiolaeth gan Lywodraeth yr Alban, *Accommodation Needs of Gypsy/Travellers* (2019), ac adroddiad annibynnol gan The Traveller Movement a gyhoeddwyd ar wefan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU, *Gypsy and Traveller health: accommodation and living environment* (2016), sy'n archwilio materion llety i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn Lloegr, ac yn cynnwys rhywfaint o waith ymchwil ansoddol cynradd ar ffurf cyfweiliadau ansoddol, yn ogystal ag adolygiad llenyddiaeth a pholisi, oedd y rhain.

- 4.22 Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfrifon Carafanau Sipsiwn a Theithwyr chwe-misol²¹. Mae'r diweddaraf o'r rhain ar adeg ysgrifennu hwn, yn rhoi ffigurau ar gyfer Gorffennaf 2021, yn adrodd bod 1095 o garafanau yng Nghymru ar 143 o safleoedd. Nid yw'r adroddiad yn rhoi sylw i orlenwi nac ansawdd llety. Edrychodd Pwyllgor Menywod a Chydraddoldebau Tŷ'r Cyffredin (2019) yn benodol ar dai a'r gymuned Roma yng Nghymru a Lloegr; canfuwyd ganddynt fod llawer o deuluoedd Roma yn byw mewn amodau tai eithriadol o wael, yn y sector rhentu preifat yn bennaf, a bod gorlenwi yn gyffredin yn y gymuned hon (Pwyllgor Menywod a Chydraddoldebau Tŷ'r Cyffredin, 2019).
- 4.23 I chwarter y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru a Lloegr sy'n byw ar safleoedd yn hytrach nag mewn tai, codwyd ansawdd safleoedd fel problem sylweddol a oedd yn effeithio ar iechyd y poblogaethau hyn, a dywedodd tyst wrth y pwyllgor fod llawer o safleoedd presennol yn orlawn ac yn beryglus (Pwyllgor Menywod a Chydraddoldebau Tŷ'r Cyffredin, 2019). Canfu The Traveller Movement (2016) hefyd fod gorlenwi yn cael ei hysbysu yn gyffredin gan eu cyfranogwyr ymchwil ar safleoedd gwerysyla (y tu mewn a'r tu allan) ac mewn tai. Canfuwyd ganddynt fod unigolion â'r cyfraddau uchaf o iechyd corfforol a meddyliol gwael a hunan-adroddwyd yn byw mewn llety gwael ac amhriodol yn bennaf, gan gynnwys llety gorlawn.
- 4.24 Canfu Pwyllgor Menywod a Chydraddoldebau Tŷ'r Cyffredin (2019) fod 74% o Sipsiwn a Theithwyr yn byw mewn tai yn 2011 er iddynt fyw bywydau crwydrol yng Nghymru a Lloegr yn hanesyddol. Mae Llywodraeth yr Alban (2020) yn nodi bod diffyg llety sy'n ddiwylliannol briodol, a ddiffinnir fel llety megis safleoedd a mannau stopio sy'n caniatáu i Sipsiwn a Theithwyr gynnal eu ffordd grwydrol o fyw a diwallu eu hanghenion diwylliannol (Llywodraeth yr Alban, 2020) yn aml yn rhan allweddol o'r gwahaniaethu y mae cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ei wynebu yn yr Alban. Nid yw'r naill ddogfen na'r llall yn trafod gorlenwi yn fanwl, ond mae Llywodraeth yr Alban (2020) yn nodi bod diffyg dealltwriaeth o ddiwylliant y cymunedau hyn yn parhau ar draws gwasanaethau tai statudol a gwirfoddol a all greu rhwystrau i fynediad, ac mae methu â diwallu anghenion llety Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ffactor allweddol yn y gwahaniaethu y maent yn ei wynebu. Mae

²¹ [Llywodraeth Cymru \(2021\) Cyfrif carafanau Sipsiwn a Theithwyr: Gorffennaf 2021. Llywodraeth Cymru, Caerdydd](#)

safleoedd o ansawdd gwael a gyflenwir gan awdurdodau lleol neu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn yr Alban yn aml yn broblem fawr i'r cymunedau hyn yn yr Alban. Yn eu hadroddiad, mae Llywodraeth yr Alban (2020) yn argymhell ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr wrth gynllunio a dylunio ymyriadau i ddarparu llety addas, pa un a ydynt yn dai confensiynol neu'n safleoedd dros dro. Cyfeirir at yr argymhellion o ymgysylltiad cyson ag ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn yr adroddiad gan The Traveller Movement (2016) a ganfu fod ymgysylltu a grymuso cymunedol yn llwybr effeithiol i ddiwallu anghenion llety ac iechyd i'r cymunedau hyn (The Traveller Movement, 2016), ac fe'u hadleisir gan Bwyllgor Menywod a Chydraddoldebau Tŷ'r Cyffredin (2019), sydd hefyd yn nodi:

While pockets of good practice exist [within public services], these tend to be driven by committed individuals developing creative solutions to overcome barriers. When individuals move on, the trust that has been built up dissipates, along with any progress that has been made.
(Pwyllgor Menywod a Chydraddoldebau Tŷ'r Cyffredin, 2019).

Gorlenwi ac Iechyd

- 4.25 Trafodir ffynonellau sy'n archwilio'r cysylltiadau rhwng gorlenwi ac iechyd yn gyffredinol yn yr adran hon. Nodwyd chwe dogfen berthnasol. Bydd ffynonellau yn canolbwyntio ar y pandemig yn cael eu trafod yn yr adran nesaf.
- 4.26 *Ethnigrwydd ac Iechyd yng Nghymru*, adroddiad gan James Allen et al. gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015), oedd yr unig ffynhonnell i edrych yn benodol ar ethnigrwydd ac iechyd yng Nghymru. Dadansoddodd yr adroddiad ddata Cyfrifiad 2011 gan ganolbwyntio'n benodol ar ganlyniadau iechyd poblogaethau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, a chanfu fod canran yr aelwydydd gorlawn rhwng tair a phum gwaith yn uwch ymysg grwpiau sy'n diffinio eu hunain fel ethnigrwydd ac eithrio Gwyn Prydeinig neu Wyddelig. Dadansoddodd hefyd y data Cyfrifiad cyfyngedig ar iechyd cyffredinol, a chanfu fod cynnydd sydyn i iechyd cyffredinol gwael neu wael iawn ym mhob categori ethnig, ond bod gan y categorïau Gwyn Prydeinig neu Wyddelig ganran salwch pob oed is (7.9%) na phob grŵp ethnig arall ac eithrio Asiaidd/Asiaidd Prydeinig, a oedd â chanran iechyd cyffredinol gwael neu wael iawn pob oed o 7.2%. Fodd bynnag, nid oedd y gwahaniaethau o ran canlyniadau iechyd

rhwng grwpiau yn enfawr, ac ni wnaed cysylltiad eglur rhwng ethnigrwydd, gorlenwi a chanlyniadau iechyd yn y dadansoddiad hwn.

4.27 Ni ystyriodd yr erthygl, *2011 Census analysis: General Health in Overcrowded and Under-occupied Households in England and Wales* (y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2015) ethnigrwydd yn benodol, ond canfu gysylltiad eglur rhwng iechyd 'nad yw'n dda' a byw mewn amodau gorlawn. Canfu'r dadansoddiad fod pobl ifanc (0-15 oed) a oedd yn byw ar aelwydydd gorlawn yng Nghymru fwy na dwywaith yn fwy tebygol o adrodd iechyd 'nad yw'n dda' (4.4%) o'u cymharu â'r rhai sy'n byw ar aelwydydd sydd wedi'u tanfeddiannu (1.8%), ac roedd y bwlch iechyd rhwng aelwydydd gorlawn ac wedi'u tanfeddiannu yn cynyddu gydag oedran, â gwahaniaeth o 17.2 pwynt canran rhwng y rhai hŷn na 65 oed ar aelwydydd gorlawn yn adrodd iechyd 'nad yw'n dda' (63.6%) o'u cymharu â'r rhai hŷn na 65 oed ar aelwydydd wedi'i tanfeddiannu (46.4%). Mae hwn yn batrwm tebyg i'r un a ganfu'r dadansoddiad yn Lloegr, gyda'r bwlch iechyd rhwng aelwydydd gorlawn ac wedi'u tanfeddiannu o 2.4 pwynt canran i'r grŵp oed ieuengaf a ddadansoddwyd (0-15) yn codi i 22.6 pwynt canran ar gyfer y rhai yn y grŵp oed hynaf (65+).

4.28 Mae *WHO housing and health guidelines* (2018) yn cynnwys trafodaeth o adolygiad llenyddiaeth ar effeithiau gorlenwi ar iechyd, ac yn dod i'r casgliad bod [gor]lenwi yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd negyddol o wahanol fathau, ond mae'r dyluniadau astudiaeth a gafodd eu cynnwys yn yr adolygiad (arsylwadol yn bennaf) a'r cysylltiad agos rhwng amddifadedd a thai, yn rhybuddio yn erbyn priodoli achosiaeth. Maent yn awgrymu y bydd gostyngiadau i [or]lenwi fwyaf effeithiol os cânt eu cyfuno â pholisiau sy'n cefnogi cyflogaeth ac yn gwella incwm aelwydydd i gynyddu fforddiadwyedd cartrefi â lle digonol. Mae system lles cymdeithasol gefnogol yn sicrhau ymhellach nad yw sioc colli incwm swydd neu incwm arall yn golygu symud i annedd â lle annigonol er mwyn lleihau costau. Maent hefyd yn nodi y dylai llunwyr polisi ystyried cyd-destun diwylliannol gorlenwi, a allai fod yn berthnasol i orlenwi yng nghyd-destun ethnigrwydd (Sefydliad Iechyd y Byd, 2018).

4.29 Mae *Health Equity in England, The Marmot Review 10 years on* (Marmot et al 2020), sy'n ailystyried *Fair Society Healthy Lives, the Marmot Review* (2010), yn nodi bod peryglon iechyd yn gysylltiedig â gorlenwi – gan gynnwys cyfraddau cynyddol o haint coluddol ac anadlol a pheryglon i iechyd meddwl, ac yn dod i'r casgliad bod iechyd

yn gwaethygu yn Lloegr i bobl sy'n byw mewn ardaloedd â rhanbarthau mwy difreintiedig, bod anghydraddoldebau iechyd yn cynyddu a bod iechyd yn dirywio i'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd. Mae'r adroddiad yn nodi bod gorlenwi yn gysylltiedig ag effeithiau iechyd meddwl fel mwy o straen, iselder a gorbryder [ymhlith oedolion], a bod plant mewn cartrefi gorlawn yn fwy tebygol o ddiodeff straen, gorbryder ac iselder, o fod ag iechyd corfforol gwaeth, o fod â chyrhaeddiad nad yw cystal yn yr ysgol ac o fod â mwy o berygl o ddiodeff problemau ymddygiadol na'r rhai mewn cartrefi nad ydynt wedi'u gorlenwi.

4.30 Nid yw adroddiad diweddarach gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, *Gwneud Gwahaniaeth. Tai ac Iechyd: Yr Achos dros Fuddsoddi* (Watson et al., 2019), yn archwilio gorlenwi yn benodol yng nghyd-destun ethnigrwydd ond mae'n ystyried gorlenwi fel un agwedd ar dai gwael, gan ddadlau bod anghydraddoldebau iechyd yn deillio o anghydraddoldebau mewn cymdeithas, a bod "amodau ac addasrwydd tai a digartrefedd yn amrywio ar draws grwpiau poblogaeth". Rhoddir yr enghraifft o'r ffaith bod aelwydydd gorlawn â phlant dibynnol dros 10 pwynt canran yn fwy tebygol o fod yn aelwydydd rhentu cymdeithasol (26.3%) o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol Cymru (15.6%). Mae'r adroddiad yn trafod peryglon iechyd tai gwael ac yn nodi'n benodol bod peryglon iechyd meddwl yn gysylltiedig yn benodol â gorlenwi. Mae hefyd yn nodi bod 'syrrffio soffas'²² (cyfrannwr ar orlenwi, y canfyddir ei fod yn effeithio'n nodweddiadol ar oedolion sengl ond sydd hefyd yn cael ei ddiodeff gan niferoedd sylweddol o deuluoedd â phlant) yn 60.7% o aelwydydd a oedd yn diodeff digartrefedd yng Nghymru yn 2016 (3100 o 5100 o aelwydydd) yn ôl amcangyfrifon gan yr elusen Crisis²³ a bod y digartrefedd cudd hwn yn achosi peryglon iechyd y mae'r adroddiad yn dadlau sy'n arwain at gostau economaidd llawer uwch nag ar gyfer y boblogaeth gyffredinol (Watson et al., 2019).

4.31 Adolygodd *Housing Disadvantage and Poor Mental Health: A Systematic Review* (2019) gan Singh et al., ddeuddeng astudiaeth gymhwysol yn archwilio effaith hydredol anfantais tai ar iechyd meddwl. Mesurwyd anfantais tai gan ddefnyddio nifer o nodweddion gan gynnwys gorlenwi. Dynododd yr holl astudiaethau cymhwysol gysylltiad cadarnhaol rhwng anfantais tai ac agweddau amrywiol ar salwch meddwl.

²² Diffinnir syrrffio soffas fel pobl yn aros dros dro gydag aelwydydd ac eithrio eu teulu uniongyrchol mewn amodau gorlawn.

²³ [Crisis \(2017\) Homelessness Projections: Core Homelessness in Great Britain. Summary Report. Crisis, Llundain](#)

Cadarnhaodd yr adolygiad y gallai amlygiad blaenorol i anfantais tai effeithio ar iechyd meddwl yn ddiweddarach mewn bywyd.

Gorlenwi, ethnigrwydd a phandemig y coronafeirws (COVID-19)

- 4.32 Cydnabyddir yn eang bod pobl o bron i bob grŵp lleiafrifoedd ethnig yn dioddef canlyniadau gwaeth o COVID-19 a chyfraddau marwolaeth uwch na grwpiau Gwyn Prydeinig ledled y DU²⁴. Bydd yr adran hon yn archwilio'r dystiolaeth o sut mae cyffredinrwydd gorlenwi mewn grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn rhyngweithio â chanlyniadau COVID-19 ac yn effeithio arnynt. Nodwyd 54 o ffynonellau perthnasol gan y chwiliad llenyddiaeth, gan gynnwys sawl erthygl ymchwil cynradd a gyhoeddwyd mewn cyfnodolion a adolygwyd gan gymheiriaid. Mae hyn yn adlewyrchu natur frys y pandemig a faint o waith ymchwil a wnaed mewn ymateb iddo. Nid oedd yr holl ffynonellau am orlenwi yn benodol; trafodir y rhai mwyaf perthnasol yn yr adran hon ynghyd â'r ffynonellau eilaidd mwyaf perthnasol.
- 4.33 Er bod amrywiad eang rhwng grwpiau lleiafrifoedd ethnig o ran cyfraddau gorlenwi, canfu dadansoddiad o ddata 2019 fod pobl o leiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fyw mewn tai gorlawn na phobl Gwyn Prydeinig yn Lloegr (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2020a). Yn yr un modd, canfu'r erthygl ystadegol *Coronafeirws (COVID-19) a'r boblogaeth pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2020a) fod "pobl o nifer o grwpiau BAME yn fwy tebygol o fyw mewn tai gorlawn na phobl Gwyn Prydeinig", yn ôl Cyfrifiad 2011. Gan ddefnyddio data o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019²⁵, canfu'r erthygl hefyd er mai 5.9% o boblogaeth Cymru sy'n nodi eu bod o grŵp lleiafrifoedd ethnig, roedd bron i 11% o'r bobl a oedd yn byw yn y 10% mwyaf difreintiedig o ardaloedd bach o grŵp lleiafrifoedd ethnig. Mae Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Bumed Senedd yn eu hadroddiad *Amlygu'r materion: anghydraddoldeb a'r pandemig* (2020), yn nodi y bu tloidi yn benderfynydd allweddol ym mhandemig COVID-19 a bod rhai grwpiau, gan gynnwys pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o ddioddef tloidi ac yn fwy tebygol o ddioddef cyfraddau marwolaeth anghymesur o uchel. Maent yn nodi bod rhesymau aml-ffactor

²⁴ Gweler, er enghraifft: [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2021\) *Updating ethnic contrasts in deaths involving the coronavirus \(COVID-19\), England: 24 January 2020 to 31 March 2021*. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Casnewydd](#)

²⁵ Mae'r Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yw'r mesur swyddogol o amddifadedd ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'r Mynegai diweddaraf ar gael yma: [Llywodraeth Cymru \(2020b\) *Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru \(diweddiad llawn i'r mynegai gyda graddfeydd\): 2019*](#). Llywodraeth Cymru, Caerdydd

am gyfraddau marwolaeth anghymesur, a'u bod yn debygol o gynnwys byw mewn amodau gorlawn yn ogystal â gweithio mewn swyddi â risg uwch, bod â chyflwr meddygol blaenorol, mathau penodol o ymddygiadau sy'n effeithio ar iechyd, a gwahaniaethu (Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2020). Canfu'r Adroddiad Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi gan Phillip Lewis, *Gypsy, Roma and Traveller communities: impact of Brexit and COVID-19* (2021) fod Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn debygol o deimlo effaith anghymesur, ac y byddai'r amodau gorlenwi tai neu safleoedd mynych y maent yn eu dioddef (gweler hefyd paragraffau 4.19 i 4.24 uchod) yn fwy tebygol o wneud cadw pellter cymdeithasol yn anodd neu'n amhosibl (Lewis, 2021).

4.34 Yn *Beyond the Data: Understanding the impact of COVID-19 on Black Asian and Minority Ethnic groups* (2020), mae Public Health England (PHE) yn dadansoddi'n ddisgrifiadol safbwyntiau rhanddeiliaid a llenyddiaeth gyhoeddedig. O ran tai, maent yn canfod y gall y risgiau sy'n gysylltiedig â throsglwyddiad, afiachedd a marwolaeth o COVID-19 gael eu gwaethygu gan yr heriau tai a wynebir gan gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn Lloegr. Yn benodol, gall gorlenwi arwain at fwy o drosglwyddiad COVID-19 gan nad yw unigolion ar yr aelwyd yn gallu hunan-ynysu'n effeithiol. Mae aelwydydd lleiafrifoedd ethnig hefyd yn fwy tebygol o fod yn rhyng-genhedlaeth, sy'n arwain at berygl o drosglwyddiad rhwng plant ifanc ac oedolion hŷn (PHE, 2020). Caiff y canfyddiad hwn ei adleisio gan y Grŵp Cynghori Gwyddonol Annibynnol ar Argyfyngau (SAGE) yn eu hadroddiad *Disparities in the impact of COVID-19 in Black and Minority Ethnic populations: review of the evidence and recommendations for action* (2020), sy'n nodi bod grwpiau ethnig penodol yn debygol yn anghymesur o fyw ar aelwydydd gorlawn, sydd

...are more likely to be multigenerational, increasing the difficulty of self-isolation, social distancing, or shielding therefore increasing the opportunity for within-household transmission (SAGE, 2020).

4.35 Mae'r rhan fwyaf o dystiolaeth yn awgrymu bod oed yn ffactor risg ar gyfer canlyniadau gwael o heintiad COVID-19²⁶, sy'n gwneud y croestoriad o oed ac ethnigrwydd yng nghyd-destun gorlenwi yn ystyriaeth bwysig. Trafodir tai ac

²⁶ Gweler, er enghraifft [Pijls et al., \(2021\) "Demographic risk factors for COVID-19 infection, severity, ICU admission and death: a meta-analysis of 59 studies." *BMJ Open* 2021;11.](#)

ethnigrwydd yng nghyd-destun oed gan de Noronha (2019) yn *Housing and the older ethnic minority population in England*, dogfen friffio gan y Race Equality Foundation. Mae de Noronha (2019) yn archwilio tai a'r boblogaeth lleiafrifoedd ethnig hŷn yn Lloegr, gan nodi bod pobl Indiaidd, Pacistanaid, Bangladeshaidd a du Affricanaidd yn parhau i fyw mewn aelwydydd eraill²⁷ am fwy o amser na grwpiau ethnig eraill. Mae hyn yn debygol o gyfrannu at y lefelau uwch o amddifadedd tai, yn enwedig gorlenwi, y maent yn ei ddiodef (de Noronha, 2019). Mae'r papur briffio yn dadlau bod angen archwilio i ba raddau y mae hyn yn adlewyrchu dewis neu reidrwydd i wahanol grwpiau ethnig. Daw de Noronha i'r casgliad bod ffactorau drwy gydol y cwrs bywyd yn cyfrannu at y lefelau uwch o amddifadedd tai y mae rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig hŷn yn ei ddiodef:

Cumulative disadvantage is evident through lower values of property assets, occupational social class and employment and deiliadaeth patterns, particularly for those aged 50-64. The living arrangements of people from the Indian sub-continent and black Africans contribute to higher levels of housing deprivation. (de Noronha, 2019)

4.36 Er na nodwyd dadansoddiad manwl o'r gwahaniaethau rhwng grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn y chwiliadau llenyddiaeth, yn ôl dadansoddiad cyfunol o ddata Arolwg Poblogaeth Blynyddol o 2016-18 a data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru o 2019, mae pobl o leiafrifoedd fwy na dwywaith mor debygol o fyw yn y 10% o ardaloedd bach mwyaf difreintiedig o'u cymharu â phobl o gefndir Gwyn, ac mae 35% o bobl o gefndir Du yn byw yn y 10% o ardaloedd bach mwyaf difreintiedig (Llywodraeth Cymru, 2020d). Yn yr erthygl ystadegol *Coronafeirws (COVID-19) a'r boblogaeth pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2020a) adroddir bod dadansoddiad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol²⁸ wedi canfod bod gan ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru gyfradd marwolaethau o COVID-19 ym mis Mawrth a mis Ebrill 2020 a oedd bron i ddwywaith yn uwch na chyfradd marwolaethau ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru (Llywodraeth Cymru, 2020a). Mae hefyd yn nodi tra bod rheoli ar gyfer ffactorau economaidd-gymdeithasol a chyfansoddiad aelwydydd yn cynnig rhan o'r esboniad am yr anghysondeb mewn cyfraddau marwolaethau, fod rhan o'r gwahaniaeth yn dal i fod

²⁷ Mae aelwydydd 'eraill' yn gategori a ddiffinnir fel aelwydydd nad ydynt yn rhai cwpl, seagl neu unig riant.

²⁸ [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2020\) *Coronavirus \(COVID-19\) related deaths by ethnic group, England and Wales: 2 March 2020 to 10 April 2020*. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Casnewydd](#)

heb ei hesbonio. Fodd bynnag, canfu dadansoddiad ystadegol pellach o ddata marwolaethau a gynhaliwyd yn 2021 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod addasu ar gyfer ffactorau o'r fath yn gostwng y perygl o farwolaethau ychwanegol o COVID-19 yn sylweddol i'r mwyafrif o grwpiau ethnig, ac eithrio dynion a menywod Du Affricanaidd, y mae'r perygl o farwolaeth yn gostwng iddynt ond nid yn cael ei ddileu²⁹. Mae hyn yn awgrymu bod ffactorau economaidd-gymdeithasol yn esbonio'r anghysondeb yn y gyfradd farwolaethau ar gyfer y rhan fwyaf o grwpiau ethnig, er i'r rhai o dras Du Affricanaidd, er y bydd llawer o'r perygl o farwolaeth ar gyfer y grŵp hwn hefyd yn cael ei esbonio gan ffactorau economaidd-gymdeithasol, efallai fod ffactorau sydd heb eu nodi yn gyfrifol am rywfaent o'r perygl o farwolaeth o COVID-19 hefyd (y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021b).

4.37 Mae astudiaeth gymharol, *Greater risk of severe COVID-19 in Black, Asian and Minority Ethnic populations is not explained by cardiometabolic, socioeconomic or behavioural factors, or by 25(OH)-vitamin D status: study of 1326 cases from the UK Biobank* (2020), gan Raisi-Esbabragh et al., hefyd yn cyflwyno tystiolaeth bod ffactorau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd gan gynnwys gorlenwi yn gysylltiedig yn annibynnol â pherygl uwch o COVID-19 yn y DU. Nid oedd yr anghysondebau o ran COVID-19 a welwyd mewn gwahanol grwpiau ethnig yn cael ei esbonio yn ddigonol gan ffactorau economaidd-gymdeithasol, ond nid oeddent chwaith yn cael eu hesbonio yn ddigonol gan ffactorau cardiofetabolig na diffyg fitamin D. Mae'r awduron yn awgrymu y dylid blaenoriaethu ymchwil pellach i ysgogiadau'r anghysondebau.

4.38 Yn y papur dadansoddi data, *COVID-19 and Ethnic Inequalities in England and Wales* (2020), a gyhoeddwyd yn *Fiscal Studies*, dadansoddodd Lucinda Platt a Ross Warwick ddata marwolaethau ac achosion ochr yn ochr â data llafurlu cyn y pandemig i ymchwilio i natur agored i niwed gymharol gwahanol grwpiau ethnig; canfu'r awduron y gallai gwahaniaethau o ran cyflyrau iechyd sylfaenol a gwahaniaethau o ran amlygiad galwedigaethol chwarae rhan mewn gwahaniaeth mewn cyfraddau marwolaethau rhwng grwpiau; nodir bod gorlenwi yn gwneud hunan-ynysu yn llawer anoddach ac yn cynyddu cyfleoedd o drosglwyddiad o fewn aelwyd. Fodd bynnag, mae'r awduron yn cwestiynu pwysigrwydd gorlenwi, gan nodi

²⁹ [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2021\) *Updating ethnic contrasts in deaths involving the coronavirus \(COVID-19\), England: 24 January 2020 to 31 March 2021*. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Casnewydd](#)

bod gan y rhai o dras Du Caribïaidd gyfraddau is o orlenwi ond cyfraddau marwolaeth uchel iawn, a'r rhai o dras Bangladeshaid yw'r grŵp ethnig â'r gorlenwi mwyaf ond mae ganddynt gyfraddau marwolaeth llawer is (Platt a Warwick, 2020).

4.39 Yn yr adroddiad ymchwil *Ethnic Inequalities in COVID-19 mortality: a consequence of persistent racism* (2021), mae James Nazroo a Laia Bécares hefyd yn archwilio anghydraddoldebau ethnig o ran marwolaethau o COVID-19. Maent yn ystyried data Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n dangos bod cydberthynas gadarnhaol gref rhwng perygl awdurdod lleol o farwolaeth o COVID-19 â chyfran y boblogaeth sydd o grŵp lleiafrifoedd ethnig. Maent yn dadlau bod y perygl uwch a wynebier gan grwpiau lleiafrifoedd ethnig o ganlyniad i'r anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol sylfaenol a wynebier gan grwpiau lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys tai gorlawn ac o ansawdd gwael, a bod yr anghydraddoldebau hyn yn cael eu llunio gan hiliaeth strwythurol a sefydliadol. Maent yn dadlau nad oes tystiolaeth ar gyfer yr esboniad cyffredin y gallai anghydraddoldebau ethnig o ran canlyniadau COVID-19 fod oherwydd gwahaniaethau biolegol (a diffyg Fitamin D yn benodol) neu ddiwylliannol yn hytrach nag amgylchiadau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol, a bod yr esboniad hwn yn anfeirniadol:

More likely than having a shared genetic or biological predisposition is that some lleiafrifoedd ethnig groups live in disinvested neighbourhoods with high levels of pollution and concentrated poverty, with insecure and underpaid employment, and in overcrowded conditions with substandard levels of housing; that these socioeconomic, housing and environmental factors are shaped by institutional and structural racism; and that discrimination is deeply embedded in the daily lives of people from these groups. (Nazroo a Bécares, 2021)

4.40 Cefnogir Nazroo a Bécares (2021) yn eu dadleuon gan lawer o'r dystiolaeth a nodir yn yr adolygiad llenyddiaeth hwn. Er enghraifft, mae astudiaeth Ali Cheshmehzangi *Vulnerability of the UK's Black Asian and Minority Ethnic communities during COVID-19: The review of public health and economaidd-gymdeithasol inequalities* (2021) a gyhoeddwyd yn y *Journal of Human Behavior in the Social Environment*, yn cynnig dadansoddiad manwl o'r prif resymau pam mae pandemig COVID-19 yn effeithio'n fwy ar gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Mae'r astudiaeth yn canolbwyntio ar anghydraddoldebau iechyd cyhoeddus, anghydraddoldebau economaidd-

gymdeithasol, a thlodi anghymesur yn y DU, gan ddadansoddi amodau cyfredol COVID-19 yn y DU yn erbyn y data llywodraethol sydd ar gael o 2018, 2019 a 2020 ar gymunedau lleiafrifoedd ethnig, yn seiliedig ar dri maes allweddol o risgiau galwedigaethol, amodau aelwydydd, a chyfraddau tlodi. Mae'r astudiaeth yn darparu mwy o dystiolaeth sy'n cefnogi llenyddiaeth bresennol ar gymunedau lleiafrifoedd ethnig yr effeithiodd COVID-19 arnynt (Cheshmehzangi, 2021).

4.41 Nododd y papur ymchwil *How does vulnerability to COVID-19 vary between communities in England? Developing a Small Area Vulnerability Index (SAVI)* a gyhoeddwyd gan Daras et al. yn y *Journal of Epidemiology and Community Health* (2021) bedair ffactor lefel poblogaeth yn gysylltiedig yn annibynnol â chyfraddau marwolaeth COVID-19 wedi'u haddasu ar gyfer oed mewn ardaloedd bach o Loegr; y rhain oedd cyfran y boblogaeth: a oedd yn byw mewn tai gorlawn; a dderbyniwyd i'r ysbyty yn y pum mlynedd diwethaf gyda chyflwr iechyd hirdymor; o gefndir lleiafrif ethnig; ac yn byw mewn cartrefi gofal. Gellir esbonio cysylltiad a nodwyd yn yr astudiaeth rhwng amddifadedd incwm a marwolaethau COVID-19 drwy gyffredinrwydd cyflyrau hirdymor a thai gorlawn, y ceir cydberthynas gref rhwng y ddau ag amddifadedd incwm (Daras et al., 2021). Defnyddiodd papur ymchwil arall a gyhoeddwyd yn *Nature Communications* gan Davies et al., *Community factors and excess mortality in first wave of the COVID-19 pandemic in England* (2021) fodelu ystadegol i ddisgrifio pa mor agored yw cymuned i farwolaeth yn gysylltiedig â COVID-19. Mae canlyniadau'r dadansoddiad yn debyg iawn i'r rhai a adroddwyd gan Daras et al. (2021). Canfuwyd mai'r ffactorau cymunedol sy'n cynyddu pa mor agored y mae'r cymunedau yw: dwysedd uchel o gartrefi gofal; cyfran uchel o drigolion yn derbyn cymorth incwm; cyfran uchel o drigolion yn byw mewn tai gorlawn, a chyfran uchel o drigolion o ethnigrwydd nad yw'n wyn (Davies et al., 2021). Eto, mae'r erthyglau ymchwil gwreiddiol hyn yn ychwanegu at y dystiolaeth mai ffactorau economaidd-gymdeithasol yw'r prif esboniad am yr anghysondebau o ran effeithiau COVID-19 rhwng grwpiau lleiafrifoedd ethnig a grwpiau Gwyn Prydeinig.

4.42 Canfu'r Grŵp Gwyddonol ar Ffliw Pandemig – Ymddygiadau a'r Grŵp Amgylcheddol a Modelu (SPI-B ac EMG) yn *Evidence Review for the Ministry for Housing, Communities and Local Government Housing Impacts Paper* (2020), adolygiad o'r llenyddiaeth yn ymwneud â sut mae trosglwyddiad COVID-19 yn digwydd ar

aelwydydd, fod y dystiolaeth yn awgrymu bod gorlenwi mewn cartrefi yn ysgogiad ar gyfer haint. Mae tai gorlawn yn arwain at berygl cynyddol o drosglwyddiad defnynnau ac aer, a hefyd mae gan leoedd a rennir botensial uchel o drosglwyddiad cyffwrdd a gwaethygir hyn o dan amodau gorlawn (SPI-B ac EMG, 2020). Mae SPI-B ac EMG (2020) a dadansoddiad o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol gan Nathaniel Barker yn y cylchgrawn ar-lein, Inside Housing, *The housing pandemic: four graphs showing the link between COVID-19 deaths and the housing crisis* (2020) yn dangos cydberthynas eglur rhwng cyfraddau marwolaeth Covid 19 a gorlenwi tai yn Lloegr, gan ddangos awgrym cryf mai ardaloedd â'r cyfraddau uchaf o dai gorlawn sydd â'r cyfraddau marwolaeth uchaf – Newham yn Llundain sydd â'r gyfradd uchaf o dai gorlawn (25.2%) yn Lloegr a'r cyfraddau marwolaeth uchaf fesul 100,000 (144.3) (SPI-B ac EMG, 2020, Barker, 2020).

4.43 Mae Barker (2020) yn damcaniaethu bod rhesymau credadwy pam y gallai gorlenwi gyfrannu at drosglwyddiad a chanlyniadau: mae'n anoddach hunan-ynysu ar aelwydydd gorlawn; mae gorlenwi hefyd yn fwy tebygol ar aelwydydd incwm is ac ar aelwydydd aml-genhedlaeth (sy'n fwy tebygol o fod ag unigolion sy'n hŷn na 75 oed, sy'n ffactor risg arall ar gyfer canlyniadau COVID-19 gwael (SPI-B ac EMG, 2020)) ac yn awgrymu y gallai gorlenwi gyfrannu at orgynrychiolaeth pobl o gefndiroedd lleiafrif ethnig ymhlith dioddefwyr COVID-19. Yn *Grŵp Cyngorol BAME y Prif Weinidog ar COVID-19: Adroddiad yr Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol* (2020c) Llywodraeth Cymru, mae'r adroddiad yn nodi bod marwolaethau COVID-19 yn gysylltiedig â thai gorlawn, yn ogystal â thai ag amlfeddiannaeth. Mae hefyd yn awgrymu y gallai gorlenwi ar aelwydydd lleiafrifoedd ethnig fod yn gysylltiedig â'r ffaith bod teuluoedd yn y grwpiau hyn yn aml yn fwy na theuluoedd cyfartalog (Llywodraeth Cymru, 2020b).

4.44 Yn *Accounting for the Variation in the Confirmed COVID-19 Caseload across England: An analysis of the role of multi-generation households, London and time* (2020), dadansoddiad ystadegol ar gyfer y New Policy Institute, mae Peter Kenway a Josh Holden yn canfod bod cyfran yr aelwydydd mewn ardal awdurdod lleol lle mae unigolyn hŷn na 70 oed yn rhannu ag oedolion o oedran gweithio yn ffactor sylweddol o ran esbonio'r amrywiad mewn niferoedd achosion COVID-19 ledled Lloegr (Kenway a Holden, 2020). Gan drafod y cysylltiad hwn ymhellach mewn adroddiad arall ar gyfer y New Policy Institute, *People and places in London most vulnerable to*

COVID-19 and its social and economic consequences (2020), mae Kenway et al. yn dadlau er y gall aelwydydd amlgenhedlaeth adlewyrchu dewis trigolion a chefnogi'r ddarpariaeth o ofal rhwng cenedlaethau, gallai cyfraddau uchel o aelwydydd o'r fath mewn ardal benodol ddynodi bod mynediad at dai priodol wedi'i gyfyngu gan alw uchel a/neu gost uchel, a hyd yn oed os dymunir trefniant amlgenhedlaeth, dylid ystyried bod pobl o bob oed yn byw mewn amodau gorlawn yn agored i COVID-19 (Kenway et al., 2020).

4.45 Mae *Rhoi tegwch iechyd wrth wraidd yr ymateb cynaliadwy i COVID-19 ac adfer ohono: Adeiladu bywydau llewyrchus i bawb yng Nghymru* (2021), adroddiad gan Dyakova et al. a gyhoeddwyd gan Ganolfan Gydwethredol Sefydliad Iechyd y Byd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn canolbwyntio ar effeithiau'r pandemig ar amrywiaeth o faterion economaidd-gymdeithasol, ac yn fframio Cymru fel gwlad sydd wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd. Mae'r adroddiad yn nodi bod mesurau COVID-19 fel cyfyngiadau symud wedi cael effeithiau niweidiol ar amodau byw i lawer o grwpiau, gan gynnwys mwy o amlygiad i dai gorlawn. Mae Dyakova (2021) yn nodi'n benodol bod cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru wedi dioddef peryglon ac agweddau agored i niwed penodol o COVID-19 oherwydd amodau byw gwael gan gynnwys gorlenwi, sy'n gwneud cydymffurfio â chadw pellter cymdeithasol, ynysu a mesurau cyfyngu yn ymwneud â hylendid yn fwy anodd (Dyakova, 2021).

4.46 Yn *Grŵp Cynghorol BAME y Prif Weinidog ar COVID-19: Adroddiad yr Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol*, mae'r adroddiad (Llywodraeth Cymru, 2020c) yn nodi bod gan lety ceiswyr lloches broblemau ansawdd difrifol a bod pobl yn aml yn cael eu gorfodi i rannu ystafelloedd; mae'r adroddiad yn argymhell ymchwiliadau i gyfraddau haint ymhlith ceiswyr lloches, gan fod tystiolaeth ar gyfer y boblogaeth hon yn brin, yn ogystal â gweithio i ddatblygu mwy o opsiynau llety symud ymlaen i ffoaduriaid sy'n gadael llety'r Swyddfa Gartref. Mae Dyakova (2021) yn adleisio *Adroddiad yr Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol* o ran cydnabod bod perygl uwch o amlygiad i COVID-19 ymysg y grwpiau hyn yn rhannol oherwydd gorlenwi.

4.47 Mae Adroddiad yr Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol hefyd yn nodi bod effaith ychwanegol ar bobl ifanc o leiafrifoedd ethnig sy'n byw ar aelwydydd gorlawn oherwydd cau ysgolion, gan fod llai o le i weithio a chwarae na myfyrwyr nad ydynt

mewn cartrefi gorlawn (Llywodraeth Cymru, 2020b). Mewn dadansoddiad o ddata arolwg Natural England, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod pobl o leiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o fod â mynediad at ardd o'u cymharu â phobl Gwyn yn Lloegr ac mae hyn yn dal i fod yn wir ar draws pob grŵp lleiafrifoedd ethnig ac ym mhob rhanbarth o Loegr (y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020b). Er nad yw dadansoddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn trafod gorlenwi na COVID-19, gallai diffyg mynediad at le yn yr awyr agored yng nghyd-destun aelwydydd gorlawn yn ystod y cyfyngiadau symud hefyd fod yn ffactor o ran y cyfraddau uwch o farwolaeth a morbidrwydd ymysg grwpiau penodol (Pwyllgor Menywod a Chydraddoldebau Tŷ'r Cyffredin, 2020).

5. Casgliadau

- 5.1 Nod yr adolygiad llenyddiaeth hwn oedd nodi tystiolaeth ynghylch tai gorlawn yng nghyswllt cymunedau pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Ni ddylid ystyried bod y canfyddiadau yn drwyadl. Nododd yr adolygiad dystiolaeth o ansawdd amrywiol, ac roedd diffyg tystiolaeth gynradd, ddiweddar o ansawdd uchel yn ymwneud â Chymru. Oherwydd natur thematig, anhrwyadl yr adolygiad hwn, ni roddir argymhellion polisi yma. Nodir argymhellion ynghylch llwybrau ymchwil yn y dyfodol isod.
- 5.2 Er ei bod yn anodd dadansoddi'r cysylltiadau achosol rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a systemig, ethnigrwydd a gorlenwi, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod gorlenwi'n effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig ar draws yr holl grwpiau oed, mewn lleoliadau gwledig a threfol, a bod COVID-19 yn cael effaith anghymesur hefyd. Mae'n ymddangos bod gorlenwi a'i effeithiau cysylltiedig yn effeithio'n arbennig o ddifrifol ar gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod ffactorau economaidd-gymdeithasol, systemig a strwythurol yn chwarae rhan yn y ffaith bod gorlenwi yn effeithio'n anghymesur ar aelwydydd lleiafrifoedd ethnig.
- 5.3 Mae angen tystiolaeth o ansawdd uchel o effeithiau gorlenwi ar grwpiau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae Uned Gwahaniaethau ar sail Hil wrthi'n cael ei sefydlu yn Llywodraeth Cymru, a rhan o gylch gwaith yr Uned yw gwella'r broses o gasglu data a gweithio gyda chymunedau i adennill ymddiriedaeth ym mhrosesau casglu data ac adrodd llywodraethol. Gallai hyn helpu i fynd i'r afael â bylchau data ar gyfer y grŵp penodol hwn.
- 5.4 Er y nodwyd rhywfaint o dystiolaeth o ysgogiadau gorlenwi, roedd hon yn brin. Bydd angen ymchwil pellach i'r ffactorau sy'n effeithio gorlenwi mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru i ddeall effaith gorlenwi mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn well.
- 5.5 Er bod yr adolygiad hwn wedi cyfeirio ar adegau at dystiolaeth o sut mae ethnigrwydd yn croestorri ag oed yng nghyd-destun gorlenwi, yn enwedig o ran

effeithiau pandemig COVID-19, dylai gwaith pellach archwilio yn fwy trwyadl sut mae gorlenwi ac ethnigrwydd yn croestorri â nodweddion gwarchoddedig eraill.

- 5.6 Roedd llawer o'r dystiolaeth a nodwyd yn y chwiliadau llenyddiaeth yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011. Bydd data rhagarweiniol o Gyfrifiad 2021 yn dechrau cael eu cyhoeddi yn 2022, a bydd y data hyn yn cynnig tystiolaeth fwy cyfredol ynghylch tai a gorlenwi. Dylid defnyddio cyhoeddiad y data hyn i fynd i'r afael â bylchau yn y dystiolaeth ynghylch sut mae gorlenwi yn effeithio ar grwpiau lleiafrifoedd ethnig penodol i wahanol raddau yng Nghymru.
- 5.7 Mae'r dystiolaeth yn ymddangos yn eglur bod COVID-19 yn effeithio'n anghymesur ar leiafrifoedd ethnig. Yn fwy cyffredinol, nodwyd tystiolaeth sy'n awgrymu bod cysylltiad mwy cyffredinol rhwng gorlenwi a chanlyniadau iechyd gwael.
- 5.8 Er ei bod yn ymddangos bod y gydberthynas rhwng gorlenwi ac effaith COVID-19 wedi'i phrofi, mae angen gwaith ymchwil o hyd i archwilio profiadau grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn ystod pandemig COVID-19. Ceir cwmpas hefyd ar gyfer mwy o waith ymchwil i ysgogiadau anghysondebau o ran effeithiau COVID-19 ar grwpiau lleiafrifoedd ethnig gan ei bod yn ymddangos bod y dystiolaeth yn dangos efallai nad ydynt wedi'u hesbonio yn llawn eto.

Cyfeiriadau

- Allen, J. Davies, R. Gibbon, R. a Jones, M. A. (2015) *Ethnicity and Health in Wales*. Iechyd Cyhoeddus Cymru, Caerdydd.
- Barker, N. (2020) "The housing pandemic: four graphs showing the link between COVID-19 deaths and the housing crisis." *Inside Housing*, 29.5.2020.
- Barnes, M. Cullinane, C. Scott, S. a Silvester, H. (2013) *People living in bad housing – numbers and health impacts*. Shelter, Llundain.
- Barton, C. a Wilson, W, (2021) *Overcrowded housing (England)*. Gwasanaeth Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin.
- Cheshmehzangi, A. (2021) "Vulnerability of the UK's BAME communities during COVID-19: The review of public health and socio-economic inequalities." *Journal of Human Behavior in the Social Environment*, mynediad cynnar.
- Crisis (2017) *Homelessness Projections: Core Homelessness in Great Britain. Summary Report*. Crisis, Llundain.
- Daras, K. Alexiou, A. Rose, T. Buchan, I. Taylor-Robinson, D. a Barr, B. (2021) "How does vulnerability to COVID-19 vary between communities in England? Developing a Small Area Vulnerability Index (SAVI)." *Journal of Epidemiology and Community Health*, 75,8.
- de Noronha, N. (2015) *Ethnic disadvantage in the housing market: Evidence from the 2011 census*. Race Equality Foundation, Llundain.
- de Noronha, N. (2019) *Housing and the older ethnic minority population in England from the Race Equality Foundation*.
- de Noronha, N. (2021) *Housing Briefing Paper*. Race Equality Foundation, Llundain.
- Dyakova, M, Couzens, L. Allen, J. Van Eimeren, M. Stielke, A. Cotter-Roberts, A. Kadel, R. Bainham, B. Ashton, K. Stewart, D. Hughes, K. a Bellis, M. (2021) *Rhoi tegwch iechyd wrth wraidd yr ymateb cynaliadwy i COVID-19 ac adfer ohono: Adeiladu bywydau llewyrchus i bawb yng Nghymru*. Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, Caerdydd.

Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Bumed Senedd (2020) *Amlygu'r materion: anghydraddoldeb a'r pandemig*. Senedd Cymru, Bae Caerdydd.

Finney, N. a Harries, B, (2013) *Understanding ethnic inequalities in housing: Analysis of the 2011 census*. Race Equality Foundation, Llundain.

Pwyllgor Menywod a Chydraddoldebau Tŷ'r Cyffredin (2019) *Tackling inequalities faced by Gypsy, Roma and Traveller communities*. Tŷ'r Cyffredin, Llundain.

Deddf Tai 1985 rhan 10. Y Llyfrfa, Llundain.

Y Grŵp Cynghori Gwyddonol Annibynnol ar Argyfyngau (2020) *Disparities in the impact of COVID-19 in Black and Minority Ethnic populations: review of the evidence and recommendations for action*. Indie_SAGE

James, J. (MS), y Gweinidog Newid Hinsawdd (2021) *Datganiad Ysgrifenedig: Tai Cymdeithasol yng Nghymru*. Llywodraeth Cymru, Caerdydd.

Johnson, H. (2021) *'Mae angen 'newidiadau systemig ar raddfa eang' i fynd i'r afael â hiliaeth ac anghydraddoldeb hiliol yng Nghymru'*. Ymchwil y Senedd, Bae Caerdydd.

Sefydliad Joseph Rowntree (2021) *Non-decent housing and overcrowding*. Sefydliad Joseph Rowntree, Efrog.

